

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Mumbles Dental and Cosmetic Suite,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 03 Mehefin 2025

Dyddiad cyhoeddi: 03 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom.....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Mumbles Dental and Cosmetic Suite, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 03 Mehefin 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd cyfanswm o ddau ymateb gan gleifion a phedwar ymateb gan staff yn y lleoliad hwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais iawn, a'u bod yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch. Gwelsom lefelau da o breifatrwydd i'r cleifion, a bod y dderbynfa ar wahân i'r ddwy ardal aros i gleifion.

Roedd y practis yn gwneud ymdrech i gynnig triniaeth frys heb ei threfnu ar yr un diwrnod, ac roedd ar agor ar un ddydd Sadwrn y mis i gynnig triniaeth i gleifion na allent fynd i'r practis yn ystod yr wythnos.

Roedd lefel dda o wybodaeth am ofal iechyd deintyddol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a gwelsom fod y 'Cynnig Rhagweithiol' i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith ac roedd staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Gwelsom drefniadau da i alluogi mynediad at wasanaethau, gan gynnwys argaeledd gofal mewn practis cangen gerllaw, er nad oedd hyn wedi'i nodi yn llenyddiaeth y practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth y practis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r problemau o ran hygyrchedd yn y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r tîm deintyddol am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol
- Roedd lifft risiau wedi'i gosod i gleifion â phroblemau symudedd
- Roedd practis cangen cwbl hygyrch ar gael i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus ac wedi'i addurno i safon uchel. Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y practis yn addas i ddarparu gofal deintyddol.

Roedd ardal ddihalogi benodedig a systemau addas ar gyfer dihalogi offer deintyddol aml dro. Fodd bynnag, roedd yr ystafell hon yn fach iawn ac nid oedd

digon o fewnlif aer. Gwnaethom hefyd nodi perygl posibl wrth symud offer i fyny ac i lawr y grisiau, oherwydd y lifft risiau.

Gwnaethom edrych ar brosesau rheoli meddyginiaethau'r practis a gwelsom fod angen mynd i'r afael â rhai meysydd yn ymwneud â storio meddyginiaethau a phadiau presgripsiwn. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â defnyddio peiriannau pelydr-X yn y practis, ac roedd ffeil drefnus yn dangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio, cynnal a chadw, a phrofi'r cyfarpar, er bod angen cynnal archwiliadau o'r platiau pelydr-X yn fwy aml.

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Gwelsom fod arweinydd diogelu wedi'i benodi a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar y pwnc.

Roedd gwybodaeth a chofnodion deintyddol y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn, ond gwnaethom nodi rhai hepgoriadau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid gwirio pwysedd yr awtoclaf bob dydd
- Sicrhau bod yr archwiliadau o'r platiau pelydr-X yn cael eu cynnal mewn modd amserol sy'n cydymffurfio â phrotocolau'r practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ardaloedd cyfforddus i'r staff a'r cleifion
- Roedd pob rhan o'r practis yn lân ac roedd prosesau dihalogi da ar waith
- Roedd yn ofynnol i bob contractiwr a oedd yn ymweld â'r practis gwblhau hyfforddiant sefydlu a oedd yn cynnwys sesiwn friffio ar ddiogelwch tân
- Cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â diogelwch tân a thystiolaeth o brofion trydanol a nwy gorfodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom linellau adrodd clir ar gyfer y staff a phractis a oedd yn cael ei redeg yn effeithiol, ynghyd â threfniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â'r tîm. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac roedd tystiolaeth o arfarniadau rheolaidd. Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol a rhwymedigaethau proffesiynol yn dda.

Gwelsom brosesau da ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion a thystiolaeth o broses gwyno addas yn unol â pholisi'r practis. Roedd y practis yn dangos ymateb cadarnhaol i adborth ac yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw newidiadau a oedd yn cael eu rhoi ar waith.

Er ein bod wedi nodi bod angen gwneud nifer o welliannau, roeddem o'r farn bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir a bod cynllun da ar gyfer cynnal archwiliadau ar waith i helpu yn hyn o beth. Roedd nifer o archwiliadau yn mynd rhagddynt ar adeg yr arolygiad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y cyflogai newydd a'r goruchwyliwr yn llofnodi'r cofnodion sefydlu i ddangos bod y cyflogai newydd wedi cyflawni'r cymhwysedd angenrheidiol
- Sicrhau yr eir i'r afael â chwynion o fewn y terfynau amser a nodir yng ngweithdrefnau'r practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom ysbryd tîm da ymhlith y staff
- Cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol
- Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer aelodau o'r staff nad oedd geirdaon cyflogaeth wedi dod i law ar eu cyfer
- Rhoddwyd gwybod i'r cleifion am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hawgrymiadau a'u hadborth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y ddau ymatebydd fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Cefais wasanaeth gofalgarn a llawn gwybodaeth gan y practis. Roedd y deintydd a'r staff yn ddeallgar ac yn gwrtais tu hwnt.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros, gan gynnwys gwybodaeth am hylendid y geg, deiet a rhoi'r gorau i smygu. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat hefyd i'w gweld yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y ddwy ddogfen yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaethau a gynigir yn y practis ac roeddent wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Roedd copïau o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion wedi'u cynnwys ar wefan y practis yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd enwau aelodau presennol y tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn glir. Roedd arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle wedi'u harddangos, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Roedd y ddau ymatebydd a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi esbonio iechyd y geg iddynt mewn ffordd y gallent ei deall ac roeddent yn cytuno bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd da y geg.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais a'u bod yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, gan hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd gwydr barugog a bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri er mwyn cynnig lefel ychwanegol o breifatrwydd.

Roedd desg y dderbynfa a'r ardal aros i gleifion ar y llawr gwaelod mewn ystafelloedd ar wahân, ac roedd ail ystafell aros ar y llawr cyntaf. Roedd hyn yn cynnig lefel dda o breifatrwydd i'r cleifion wrth gyflwyno'u hunain i'r dderbynfa. Roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth ddelio â nhw, gan gynnwys wrth gynnal sgysiau dros y ffôn. Dywedwyd wrthym y gellid ymdrin â galwadau ffôn sensitif a thrafodaethau cyfrinachol â chleifion mewn deintyddfa wag.

Roedd naw egwyddor ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn y dderbynfa, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gadarnhaodd cynnwys gwybodaeth adnabod, cyngor ar hylendid y geg a deiet, a hanes meddygol priodol yn cael eu cofnodi. Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r tîm deintyddol am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, ac roedd hyn yn arfer da yn ein barn ni.

Roedd y ddau ymatebydd a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt a'r risgiau a'r manteision cysylltiedig. Roedd y ddau yn cytuno bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad ac yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad. Roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu drwy e-bost, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb wrth y dderbynfa.

Roedd slotiau triniaeth frys yn cael eu hamserlennu bob dydd yn y rhaglen ddeintyddol er mwyn galluogi cleifion i gael triniaeth frys, ac roedd galwadau brys yn cael eu brysennu gan y staff i bennu blaenoriaeth. Dywedwyd wrthym fod cleifion fel arfer yn gorfod aros rhwng dwy a phedair wythnos rhwng pob

apwyntiad ar gyfer triniaeth yn dibynnu ar y deintydd a oedd yn darparu'r driniaeth.

Roedd yr oriau agor a'r rhif ffôn i'w ddefnyddio mewn argyfwng y tu allan i oriau wedi'u harddangos yn glir ac i'w gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y manylion hyn ar gael ar wefan y practis hefyd. Roedd y practis ar agor ar un dydd Sadwrn y mis, drwy apwyntiad, i gynnig triniaeth i gleifion a oedd yn ei chael hi'n anodd mynd i'r practis yn ystod yr wythnos.

Dywedodd y ddau ymatebydd a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom fod y wybodaeth ysgrifenedig a oedd i'w gweld yn y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod gwasanaethau cyfieithu addas ar gael i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Gwelsom arwyddion yn hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, a dywedwyd wrthym fod dau aelod o staff y practis yn siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym fod y ddau ohonynt yn gwisgo dyfeisiau iaith Gwaith i ddangos i'r cleifion y gallent ddarparu triniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg pe bai angen.

Gwelsom fod gwybodaeth mewn fformatau eraill fel print bras ar gael ar gais a bod fersiynau hawdd eu deall o nifer o daflenni ar gael. Roedd system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn ffordd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion. Roedd polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol wedi'i gynnwys yn llawlyfr staff y practis a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ar y pwnc hwn yn y ffeiliau staff y gwnaethom edrych arnynt. Roedd trefniadau priodol ar waith i gynnal hawliau cleifion trawsryweddol, gan gynnwys defnyddio'r enwau a'r rhagenwau a ffeirir.

Cadarnhaodd y ddau ymatebydd a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r practis.

Roedd un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod a dwy ddeintyddfa arall ar y llawr cyntaf. Roedd lifft risiau wedi'i gosod i helpu cleifion â phroblemau symudedd. Fodd bynnag, roedd nifer o risiau i mewn i'r practis oddi ar y stryd.

Gwelsom hefyd fod y toiled i gleifion yn fach iawn, a allai beri anawsterau i'r rheini â phroblemau symudedd, ac nad oedd yn addas i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn. Dywedwyd wrthym fod y practis yn gofyn i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn fynd i'w bractis cangen a oedd yn gwbl hygyrch. Fodd bynnag, nid oedd taflen wybodaeth i gleifion y practis yn adlewyrchu'r problemau hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig Adolygu'r datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth y practis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r problemau o ran hygyrchedd yn y practis.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd yr adeilad yn ymddangos mewn cyflwr da ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg i'r cleifion. Y tu mewn i'r adeilad, roedd y practis wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda ar y cyfan, ond roedd rhai ardaloedd, fel y toiled, y gegin a'r ystafell ddihalogi, yn fach.

Gwelsom fod polisi cynnal a chadw'r adeilad cyfredol ar waith yn y practis. Roedd polisi parhad busnes ar waith, a oedd yn cynnwys rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn os na fyddai'n bosibl darparu'r amrywiaeth lawn o wasanaethau o ganlyniad i argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau gyda deintyddfeydd cyfagos, ac roedd rhifau cyswllt perthnasol wedi'u harddangos ym mhob deintyddfa.

Roedd y practis wedi cwblhau Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch ac roedd Polisi Iechyd a Diogelwch ar waith. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy wedi'i arddangos yn glir i'r staff ei weld, a gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith. Gallai'r staff newid mewn preifatrwydd ac roedd loceri ar gael iddynt storio eu heiddo yn ddiogel.

Gwelsom fod yr arolygiad bob pum mlynedd o'r gwifrau a'r Profion Offer Cludadwy (PAT) yn gyfredol. Roedd cofnod gwirio diogelwch nwy blynyddol cyfredol ar gael.

Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau'n ddiweddar ac roedd yr argymhellion a wnaed wedi'u rhoi ar waith. Gwelsom fod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Roedd gwiriadau wythnosol o'r larwm tân ac ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi, ac roedd y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd arwyddion priodol i ddangos lleoliad pwyntiau gadael ac nid oedd unrhyw rwystrau ger y pwyntiau hyn.

Gwelsom ei bod yn ofynnol i bob contractiwr a oedd yn ymweld â'r practis gwblhau proses sefydlu a oedd yn cynnwys polisiâu allweddol perthnasol a sesiwn friffio ar ddiogelwch tân, ac roeddem o'r farn bod hyn yn arfer da.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom bolisi priodol mewn perthynas â phrosesau atal a rheoli heintiau, ac roedd arweinydd rheoli heintiau dynodedig wedi cael ei benodi. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio i gefnogi arferion glanhau effeithiol.

Roedd y deintyddfeydd yn lân yr olwg ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod breichiau'r seddau yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf wedi treulio, a allai lesteirio prosesau atal heintiau effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r seddau a oedd wedi treulio er mwyn gwella prosesau atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiled. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio ac roedd dyfeisiau offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal anafiadau a achosir gan nodwydd. Roedd protocolau offer miniog ar gael i gynghori'r staff ar y camau i'w cymryd pe bai rhywun yn cael anaf a achoswyd gan offer miniog.

Roedd ystafell halogi ddynodedig yn y practis, ac roeddem o'r farn bod yr ystafell hon yn fach iawn ac nad oedd digon o fewnlif aer. Efallai yr hoffai'r practis ystyried sut y gall wella'r mewnlif aer fel rhan o unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol. Disgrifiwyd y system ar gyfer symud offer rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi, a oedd yn cynnwys eu cario heibio i lifft risiau, a oedd yn achosi perygl i'r staff yn ein barn ni. Gwnaethom drafod yr angen i roi system ar waith ar gyfer cario'r blychau offer glân a brwnt a oedd yn galluogi'r staff i gadw un llaw yn rhydd i gadw cydbwysedd a sefydlogrwydd.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd ac archwiliadau rheoli heintiau blynyddol yn cael eu cwblhau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Dangoswyd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer amlbro. Fodd bynnag, gwelsom fod pwysedd yr awtoclaf yn cael ei wirio bob wythnos yn hytrach na phob dydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pwysedd yr awtoclaf ei wirio bob dydd.

Roedd trefniadau addas ar waith i ddidoli a storio'r gwastraff clinigol a gynhyrchwyd gan y practis. Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff yn ddiogel.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt, ond ni wnaethom drafod opsiynau i symleiddio'r ffolderi hyn a'u trefnu'n well er mwyn gwella mynediad atynt.

Roedd pob aelod o staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer caffael a gwaredu cyffuriau. Gwnaethom drafod yr angen i sicrhau bod unrhyw adweithiau andwyol i feddyginiaethau yn cael eu cofnodi'n briodol drwy'r cynllun cerdyn melyn. Gwelsom fod meddyginiaeth a phadiau presgripsiwn yn cael eu storio'n anniogel. Gwnaethom godi hyn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff a gofyn am i'r eitemau hyn gael eu storio mewn cabinet dan glo.

Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd polisi cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol ac roedd hwn yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol cyfredol. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Edrychwyd ar y cyfarpar a'r meddyginiaethau i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd roedd angen archebu meddyginiaethau newydd. Roedd pob eitem o gyfarpar ar gael, ac roedd dyddiadau defnyddio'r meddyginiaethau yn gyfredol.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys pob eitem briodol. Gwelsom fod nifer priodol o swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig yn y practis i sicrhau bod swyddog ar ddyletswydd yn ystod cyfnodau o wyliau ac absenoldeb staff.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaeth a gofal deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn yr ardal aros i egluro risgiau a manteision cael archwiliad pelydr-X i'r cleifion.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X a bod y gwiriadau a'r gwaith cynnal a chadw gofynnol wedi'u cwblhau. Roedd asesiad risg ymbelydredd cyfredol ar waith.

Gwelsom fod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r tebygolrwydd o gysylltiad damweiniol ac optimeiddio lefelau dosau cleifion. Roedd archwiliadau ymbelydredd yn cael eu cynnal fel rhan o raglen sicrhau ansawdd y practis, ond gwnaethom drafod yr angen i wella'r archwiliadau pelydr-X drwy gynnwys mwy o fanylder a llunio adroddiadau personol ar gyfer aelodau unigol o'r staff. Gwelsom hefyd mai'r dyddiad ar yr archwiliad diwethaf o'r platiau pelydr-X oedd 2022, ond roedd protocolau'r practis yn nodi y dylid cynnal yr archwiliadau hyn bob chwe mis. **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod proses ar waith i archwilio platiau pelydr-X digidol digidol sy'n cydymffurfio â phrotocolau'r practis.**

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn ymwneud â'r defnydd o belydrau-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn ffeiliau'r staff.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom bolisi a gweithdrefnau cyfredol addas mewn perthynas â diogelu. Roedd siartiau llif ar gyfer camau diogelu a manylion cyswllt perthnasol ar gael yn hawdd i'r staff pe bai pryder. Roedd arweinydd diogelu yn y practis a oedd wedi lawrlwytho ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru i sicrhau bod y practis yn dilyn y canllawiau diweddaraf.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu hyd at lefel briodol ac yn ddeallus am y pwnc yn ôl pob golwg. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cymorth ar gael i'r staff pe bai ganddynt bryder, a bod y practis yn y broses o gaffael gwasanaethau llesiant ychwanegol.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roeddem o'r farn bod digon o staff a oedd wedi'u hyfforddi'n addas yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu casglu a'u dilyn yn ôl y gofyn. Roedd rhestrau gwirio a argymhellir yn cael eu defnyddio i helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion Cleifion

Roedd system addas ar waith i sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Roedd polisïau a phrosesau cydsynio priodol ar waith i gynnal hawliau cleifion heb

alluedd. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol 10 claf. Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau meinweoedd meddal a bod cleifion yn cael eu had-alw yn unol â chanllawiau NICE. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion. Er bod tystiolaeth o waith cynllunio triniaeth, gwelsom nad oedd opsiynau triniaeth bob amser yn cael eu nodi, a gwelsom nad oedd y driniaeth a roddwyd wedi'i chofnodi yn un o'r cofnodion. Gwelsom hefyd nad oedd un o'r cofnodion yn cynnwys ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi, ac nad oedd rhai cysylltiadau pelydr-X wedi'u cofnodi'n llawn gyda gradd ar gyfer y ddelwedd a chyfiawnhad dros y cysylltiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.

Yn ogystal, gwelsom nad oedd dewis iaith y claf wedi'i gofnodi yn rhai o'r cofnodion a welsom. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y practis eisoes wedi dechrau gofyn i'r cleifion am eu dewis iaith a chofnodi hyn yn eu cofnodion.

Effeithlon

Effeithlon

Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roedd hylenydd yn cael ei gyflogi er mwyn cynnig opsiynau gofal deintyddol ychwanegol i'r cleifion.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon, gydag atgyfeiriadau at wasanaethau eraill yn cael eu cofnodi a chatau dilynol yn cael eu cymryd i fynd ar eu trywydd yn ôl yr angen. Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei defnyddio i alluogi'r practis i ddefnyddio apwyntiadau a oedd wedi'u canslo.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd pedwar aelod o'r staff i holiadur AGIC ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau yn ymwneud ag urddas y cleifion a llesiant y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob un o'r ymatebwyr yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i'r cleifion ac yn fodlon mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Mae fy mhreactis yn canolbwyntio ar y cleifion, ac mae'r rheolwyr yn awyddus i feithrin amgylchedd lle mae unrhyw bryderon neu syniadau ar gyfer gwell yn cael eu rhannu a'u trafod. Rwy'n teimlo fy mod yn cael llawer o gefnogaeth fel aelod o'r tîm, a bod gofal cleifion wrth wraidd ethos y practis.”

“Mae'r rheolwyr a phob aelod o'r tîm clinigol yn gefnogol... mae'r practis yn eithriadol, ac mae pawb yn poeni am bob un o'r cleifion ac yn ceisio darparu'r gofal gorau posibl. Rwy'n falch o weithio i'r cwmni ac rwy'n hoffi dweud wrth bobl ble rwy'n gweithio.”

Er bod pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, nid oedd un ymatebydd yn cytuno bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis nac yn teimlo ei fod yn gallu ymdopi â'r holl ofynion croes o ran ei amser yn y gwaith.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Y prif ddeintyddion ynghyd â rheolwr y practis a'r brif nyrs ddeintyddol sy'n gyfrifol am reoli gweithrediad y practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm staff y practis. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd a'u bod ar gael i aelodau o staff a oedd yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Roedd y sampl o bolisiau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, bod y fersiynau wedi'u rheoli'n dda a'u bod wedi cael eu hanfon drwy e-bost at y staff er mwyn sicrhau eu bod wedi gweld y fersiwn ddiweddaraf.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC y byddai'n argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo, ac roedd pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn cael cyfleoedd teg a chyfartal yn y gweithle. Roedd pob un ohonynt yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth a gwnaethant gadarnhau nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu yn y gweithle.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ogystal â'r prif ddeintyddion a'r prif nyrs, roedd tîm y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, nyrs dan hyfforddiant a dau dderbynnnydd. Gwelsom fod yr uwch-reolwyr yn agored ac yn hawdd mynd atynt, a gwelsom ryngweithio rheolaidd rhyngddynt a'r staff drwy gydol ein harolygiad.

Gwelsom fod nifer y staff a'u cymysgedd sgiliau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir a dywedwyd wrthym fod staff o'r practis cangen yn cael eu defnyddio yn ystod cyfnodau o wyliau a salwch. Dim ond ar achlysuron prin y byddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, a byddai archwiliadau priodol yn cael eu cynnal i ddilysu eu cymwysterau a'u cymhwysedd. Gwelsom fod ysbryd tîm da ymhlith staff y practis. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis i gynghori'r staff pe bai'r angen yn codi.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff y practis er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn deall eu rolau ac yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai o'r cofnodion sefydlu wedi'u llofnodi naill ai gan yr aelod o'r staff neu gan y goruchwyliwr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion sefydlu eu llofnodi gan y cyflogai newydd a'r goruchwyliwr er mwyn dangos bod y cyflogai newydd wedi cyflawni'r cymhwysedd angenrheidiol i weithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod gan y rhan fwyaf o'r staff dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; roedd gwiriadau gweddill y staff ar fin cael eu cwblhau ac roedd

asesiadau risg interim ar waith ar eu cyfer. Roedd yr holl wybodaeth angenrheidiol arall i gadarnhau addasrwydd y staff ar gyfer eu rolau ar gael. Roedd achosion lle nad oedd geirdaon cyflogaeth wedi dod i law, a gwelsom fod asesiadau risg ar waith yn yr achosion, a oedd yn briodol yn ein barn ni.

Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn dda, ac roedd rheolwyr y practis yn monitro hyn. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd berthnasol i'w rolau yn y practis, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein BOC yn ymwneud â defnyddio'r silindrau ocsigen yn ddiogel. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys tystiolaeth i gadarnhau eu bod wedi cael arfarniadau gwaith bob chwe mis.

Roedd hanner y staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl, ond roedd yr ymatebwyr eraill yn teimlo eu bod wedi cael rhywfaint o hyfforddiant.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff yn cynnwys y canlynol:

“Byddwn wir yn hoffi mynd ar gwrs a fyddai'n fy helpu i ddatblygu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'm rôl ymhellach.”

“...am fod hon yn rôl mor amrywiol, rwy'n teimlo y bydd cael y cyfle i gael hyfforddiant pellach ar elfennau gwahanol o'm swydd o fudd i mi a'r busnes...”

Dylai'r uwch-reolwyr fyfyrir ar yr adborth hwn a chyfathrebu ymhellach â'r staff er mwyn deall y ffordd orau o sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo ei fod wedi cael hyfforddiant digonol i gyflawni ei ddyletswyddau yn y practis deintyddol.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Disgrifiwyd gwahanol drefniadau ar gyfer ceisio gan gleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis, gan gynnwys blwch awgrymiadau a holiaduron boddhad cleifion.

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei adolygu, ei asesu a'i drafod yng nghyfarfodydd tîm y practis. Gwelsom fod y practis wedi rhoi nifer o welliannau ar waith o ganlyniad i hynny, gan gynnwys gosod lifft risiau, gosod bleinds yn yr ystafell aros, a rhoi marciau amlwg ar y grisiau. Roedd y practis yn rhannu newidiadau a wnaed mewn ymateb i awgrymiadau gan gleifion drwy hysbysfwrdd ‘Dywedoch chi, gwnaethom ni’ yn yr ardal aros i gleifion.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig wedi'i harddangos i gynghori cleifion a oedd am godi pryderon am ofal deintyddol a ddarparwyd yn y practis. Roedd y weithdrefn hon hefyd yn cynnwys manylion sefydliadau eraill y gallai cleifion fynd atynt am help a chymorth. Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi mewn ffolder cwynion ond roedd hyn yn anaml, heb nodi unrhyw broblemau cyffredin. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y practis wedi ymateb i un o'r cwynion o fewn y terfynau amser a nodir yng ngweithdrefnau'r practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn unol â'r terfynau amser a nodir yng ngweithdrefnau'r practis.

Dywedodd y ddau ymatebydd a gwblhaodd yr holiadur i gleifion wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw gwynion ar ôl triniaeth.

Gwelsom fod polisi ar waith yn y practis mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn rhoi arweiniad ac yn nodi cyfrifoldebau'r staff. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw ddigwyddiadau lle bu angen arfer y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn deall ei rôl o ran cyrraedd safonau'r Ddyletswydd Gonestrwydd a bod y practis yn ei annog i fynegi pryderon pe bai rhywbeth wedi mynd o'i le.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwelsom y byddai digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi yn llyfr digwyddiadau'r practis. Disgrifiwyd dulliau priodol o rannu'r wybodaeth hon â'r staff a'r GIG yn ehangach.

Roedd polisi diogelu data priodol a pholisi ar ddefnyddio'r e-bost a'r rhyngwrdd ar waith yn y practis er mwyn helpu i drin a storio gwybodaeth am gleifion yn briodol.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd yn ymddangos bod cynllun da ar gyfer cynnal archwiliadau ar waith, a bod archwiliadau o achosion o groes-heintio, gwastraff gofal iechyd a mynediad i bobl anabl eisoes wedi'u cwblhau. Roedd nifer o archwiliadau eraill,

gan gynnwys archwiliadau o nodiadau clinigol a rhoi'r gorau i smygu yn mynd rhagddynt ar adeg yr arolygiad. Byddai canlyniadau'r archwiliadau hyn yn cael eu hasesu er mwyn helpu i lywio penderfyniadau'r tîm rheoli.

Dywedwyd wrthym fod adolygiadau gan gymheiriaid o'r staff clinigol yn cael eu cynnal yn y practis a bod adnoddau hyfforddiant datblygu tîm a gwella ansawdd cydnabyddedig yn cael eu defnyddio, ochr yn ochr â'r broses o gynllunio rhai ychwanegol.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Er nad yw'r practis yn cymryd rhan mewn grŵp clwstwr gofal iechyd, disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau eraill, fel timau diogelu, ymarferwyr cyffredinol a fferyllwyr, er mwyn cydgysylltu gofal iechyd yn well ar gyfer y cleifion a'r gymuned ehangach.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod meddyginiaethau a phadiau presgripsiwn yn cael eu storio'n anniogel.	Gallai fod risg i'r cleifion ac ymwelwyr am fod modd cael gfael ar feddyginiaethau. Gallai padiau presgripsiwn gael eu dwyn a'u camddefnyddio, gan arwain at fynediad anghyfreithlon at feddyginiaeth a sylweddau a reolir.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Cafodd y cyffuriau a'r padiau presgripsiwn eu symud i gabinet dan glo. Cafodd y polisïau perthnasol eu diwygio'n briodol.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Mumbles Dental and Cosmetic Suite

Dyddiad yr arolygiad: 03 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Mumbles Dental and Cosmetic Suite

Dyddiad yr arolygiad: 03 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom fod y toiled i gleifion yn fach iawn, a allai beri anawsterau i'r rheini â phroblemau symudedd a'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn. Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn gofyn i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn fynd i bractis cangen a oedd yn gwbl hygyrch	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig Adolygu'r datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth y practis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r problemau o ran hygyrchedd yn y practis.	Safon Ansawdd - Teg	Rydym wedi diweddarau ein datganiad o ddiben a'n taflenni gwybodaeth, sydd ar gael ar ein gwefan.	Jenna Phillips - Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau 31/07/2025
Roedd breichiau'r seddau yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf wedi	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r	Rheoliad 13(6)(b)(i) - Rheoliadau	Rydym wrthi'n chwilio am sofffa newydd yn lle'r sofffa bresennol - mae	Nicholas Packer	Diwedd mis Rhagfyr 2025

treulio, a allai lesteirio prosesau atal heintiau effeithiol.	afael â'r seddau a oedd wedi treulio er mwyn gwella prosesau atal a rheoli heintiau.	Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	amserlen lanhau ddyddiol ar waith nes y byddwn wedi dod o hyd i sofffa newydd.		
Roedd pwysedd yr awtoclaf yn cael ei wirio bob wythnos yn hytrach na phob dydd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pwysedd yr awtoclaf ei wirio bob dydd.	Rheoliad 13(3)(b)	Mae'r tîm nyrsio wedi rhoi hyn ar waith. Mae'r tîm nyrsio deintyddol bellach yn cynnal y gwiriadau pwysedd bob dydd.	Nicholas Packer, Rachel Gronow, Charlotte Clark ac Ellen Humphries	Yn weithredol o 04/06/2025
Y dyddiad ar yr archwiliad diwethaf o'r platiau pelydr-X oedd 2022, ond roedd protocolau'r practis yn nodi y dylid cynnal yr archwiliadau hyn bob chwe mis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod proses ar waith i archwilio platiau pelydr-X digidol digidol sy'n cydymffurfio â phrotocolau'r practis.	Rheoliad 7 - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.	Ers yr arolygiad, rydym wedi dod o hyd i'r archwiliadau perthnasol ac wedi darparu copi i AGIC ar 31/07/2025	Nicholas Packer, Rachel Gronow, Caroline Stevens Deganello a Charlotte Clark	31/07/25
Gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yng nghofnodion y cleifion, gan gynnwys y canlynol...	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.	Rheoliad 20(1)(a)(i) ac (ii)	Mae'r practis wrthi'n cynnal archwiliad mewnol o'r cofnodion clinigol. Ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau, caiff adolygiad o'r canfyddiadau ei goladu a'i drafod yn un o	Nicholas Packer a Rachel Gronow	Awst 2025

			gyfarfodydd y practis a rhoddir hyfforddiant perthnasol lle bo angen.		
Nid oedd cofnodion sefydlu rhai o'r cyflogeion newydd wedi'u llofnodi naill ai gan y cyflogai neu gan y goruchwyliwr.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion sefydlu eu llofnodi gan y cyflogai newydd a'r goruchwyliwr er mwyn dangos bod y cyflogai newydd wedi cyflawni'r cymhwysedd angenrheidiol i weithio yn y practis.	Rheoliad 17(3)(a)	Mae hyn bellach wedi'i roi ar waith ac mae hyfforddiant gloywi mewnol wedi'i gynnal.	Nicholas Packer, Rachel Gronow a Jenna Phillips	Yn weithredol o 04/06/2025
Nid oedd y practis wedi ymateb i un o'r cwynion o fewn y terfynau amser a nodir yng ngweithdrefnau'r practis.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn unol â'r terfynau amser a nodir yng ngweithdrefnau'r practis.	Rheoliad 21	Mae hyfforddiant gloywi wedi'i roi ar waith ar gyfer y staff er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phob cwyn yn unol â pholisi'r practis a phwysigrwydd llofnodi'r i ddangos bod y gŵyn wedi'i datrys.	Nicholas Packer, Rachel Gronow a Jenna Phillips	04/06/25

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Edward Nicholas Packer

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig/Perchennog y Practis

Dyddiad: 31/07/2025